
North Wales **Together**
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**

*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*

## Y Cynllun Cyfathrebu

| | |
|---|---|
|   | Y Cynllun Cyfathrebu<br><br>Mae'r cynllun yma yn dweud sut mae'r tîm prosiect yn mynd i gyfathrebu gyda llawer o wahanol bobl a sôn sut mae pethau'n mynd gyda'r prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu a beth yr ydym yn ei wneud. |
|  | Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn deall beth ydy pwrpas y prosiect a beth ydym yn ceisio ei wneud.<br><br>Gallwn gyfathrebu mewn llawer o wahanol ffyrdd. |
|   | Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod y person cywir yn cael y neges gywir ar yr amser cywir. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn mynd i gael tudalen facebook lle byddwn yn rhannu gwybodaeth. |
| | Rydym yn mynd i gael cyfrif Twitter lle byddwn yn rhannu gwybodaeth. |
| North Wales Together<br>Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd<br>*Seamless services for people with Learning Disabilities*<br>*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu* | Rydym wedi creu Logo ar gyfer y prosiect a bydd hwn yn cael ei ddangos ar yr holl wybodaeth a roddwn. |
|  | Byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd lle gallwn i gyd ddod at ein gilydd i rannu beth mae’r prosiect yn ei wneud.<br><br>Dyma lun o’n digwyddiad lansio yn Venue Cymru. |

| | |
|---|---|
|  | Byddwn yn cynhyrchu newyddlen a bwletinau rheolaidd i bawb eu darllen.<br>Bydd y bwletinau yma yn cael eu hysgrifennu mewn dull hawdd eu darllen a byddant ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |
|  | Rydym hefyd yn mynd i roi gwybodaeth ar y wefan – dyma’r ddolen https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/anableddau-dysgu/ |
|  | Rydym eisiau gwybod pa mor dda yr ydym yn cyfathrebu gyda phawb felly byddwn yn gofyn am adborth.<br><br>Gallwch roi gwybod i ni trwy anfon e-bost at Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk<br><br>Efallai y byddwch eisiau gofyn i’ch teulu, gofalwr neu ffrind i'ch helpu i anfon e-bost atom ni. |